

# ATGOFION O'R BORTH

## Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy

### Menai Bridge and District Civic Society

# MEMORIES OF MENAI BRIDGE

Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddar ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr. Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.

Ewch i'n Gwefan yn  
[www.menaibrbridgecivicsociety.org.uk](http://www.menaibrbridgecivicsociety.org.uk)

Menai Bridge Civic Society is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members. We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome, as is help with identifying people in photographs.

See our Website at  
[www.menaibrbridgecivicsociety.org.uk](http://www.menaibrbridgecivicsociety.org.uk)

Atgofion Porthaethwy


Cyfrol 17

## Margaret Lloyd George

### Yn Agor Cyfleon Newydd yn 1919.

'Roedd Mrs. Margaret Lloyd George, gwraig "y dyn enillodd y Rhyfel" yn siaradwr cyhoeddus hynod o effeithiol a chodwr arian. Tra bod wedi ei chodi'n Fonesig (er fod well ganddi deitl fwy syml) am ei gwaith yn codi mwy na £200,000 ar gyfer ei helusenau Rhyfel yng Nghymru, 'roedd hi hefyd yn siaradwr politiciaidd hynod effeithiol er nad yw hyn yn cael ei gydnabod mor aml. Yn 1918 ymgyrchodd dros ei gwr yn Sir Gaernarfon a thrwy Gymru gan gynnwys Caerdybi; ym mis Tachwedd 1919 siaradodd mewn dau rali yn Plymouth i gefnogi Nancy Astor(i) ac yn 1921 roedd ei hymgyrchu'n bendant yn rhan bwysig tuag at ennill yr is-etholiad yn Sir Aberteifi i'r ymgeisydd Clymblaid Rhyddfrydol. "Margaret yw'r Seren" – dyna a ddywedwyd ar y pryd.

Ond 'roedd rhan fwyaf o'i hamser yn mynd ar ymgyrchu ar ran ei hachosion ei hun, a heb os un rhan oedd yn rhoi plaser mawr iddi oedd agor cyfleusterau newydd oedd yn cynnig cyfleon newydd, mae copiau o ddwy araith roddwyd ganddi mewn digwyddiadau o'r fath, ychydig dros gan mlynedd yn ol, ym Mangor a Chaerdybi, wedi eu rhoi ar gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. (ii)



Tudalen yn llawysgrifen Mrs. Lloyd George o fersiwn ei haraith yn y Coleg Normal, ar gael ochr yn ochr a fersiwn

## Mrs. Lloyd George yn y Coleg Normal, Bangor, esiampl pwysig i'r holl wlad.

Ar Hydref 21ain 1919, daeth Mrs. Lloyd George i agor Llety'r George, llety newydd wedi ei wneud o hen Westy'r St. George ar gyfer myfyrwyr gwryw yn y Coleg Normal (neu Coleg Hyfforddiant Siroedd Gogledd Cymru), golyga hyn y byddai sicrwydd y byddai'r myfyrwyr benyw yn parhau i dderbyn llety mewn man arall. Mae'r adeilad yn dal i fod yn rhan o gampws Prifysgol Bangor, lle mae'r Adran Gwyddoniaeth Chwaraeon wedi ei leoli. Yn ei haraith mae Mrs. Lloyd George yn anfon neges bwysig i'r Deyrnas Unedig i gyd.

Gallai'r wlad i gyd fedru dysgu o brofiad y Coleg Normal sef y gellid darparu ar gyfer y dynion tra'n amddiffyn diddordeb y merched. Ni fuasai gadael i'r wlad fethu yn ei dyletswydd gwladgarol tuag at y dynion fu'n ymladd wrth dynnu cyfleoedd oddi wrthynt ar gyfer hyfforddiant neu wasanaethu ond mae'n gydradd bwysig i sicrhau bod merched sydd wedi magu diddordeb mewn gwasanaeth gonest yn ystod y rhyfel ddim yn cael eu gorfodi i ddychwelyd i'r rhengoedd o bobl sy'n gwastraffu eu hamser yn hanner segur.

Yn yr ail hanner o'i haraith mae Mrs. Lloyd George yn siarad gyda'r myfyrwyr benyw sydd yn y gynulleidfa, yn canolbwyntio ar iddynt ddysgu merched eraill mewn celfyddydau cadw ty gan gynnwys ei chonsyrn bod cymaint yn troi at fwyd mewn tun yn lle coginio bwyd cartref. . . .

"Un o'r esiamplau gwaethaf o or-wario yw'r mamau ac eraill yng ngofal cartrefi sydd, yn lle darparu ar gyfer anghenion y teulu, yn rhedeg i'r siop gornel i brynu bwyd tun sy'n ddrud ac yn llai iachus na'r bwyd y buasant yn hawdd iawn yn medru ei ddarparu gyda'u dwylo eu hun. Mae yna ormod o redeg i'r siop am ddillad, dillad y gallasai mamau a merched allu eu gwneud ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd".

Ac yn olaf i wneud yn siwr bod gwersi a ddysgwyd yn ystod y Rhyfel sef fod gan ferched llawn cymaint i'w gyfrannu a dynion drwy fywyd economaidd :-


"Deallaf fod myfyrwyr benywaidd yn derbyn cwrs mewn gwyddoniaeth gwledig. Dangosodd merched y Fyddin Tiroi yn ystod y Rhyfel sut maent yn medru gweithio ar y tir gyda gwersi pwrpasol ac effeithiol. 'Nawr fod addewid wedi

roi i bawb o fwy o amser hamdden, mae'n bwysig bod pobl yn cael eu hyfforddi er mwyn gwneud y defnydd gorau ohono.

Mae defnydd economic o amser llawn mor bwysig a defnydd economic o arian, mae'n gymaint o bechod gwastraffu amser a chyfle ac ydi lluchio arian sydd wedi ei ennill".

Araith boliticaidd rymus.

## Mrs. Lloyd George yng Nghartref Ymadfer Y Fonesig Thomas, Garreglwyd, Caergybi.



Tudalen gyntaf o nodiadau Mrs. Lloyd George ar gyfer yr araith.



### O'r North Wales Chronicle and Advertiser Mehefin 20fed 1919, hawlfraint anhysbys o Archif Papurau Newydd ar lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae nodiadau'r araith wedi ei hysgrifennu ar bapur o gartref Syr Robert John Thomas perchennog cwmni llongau o Lerpwl ac Aelod Seneddol Clymblaid y Rhyddfrydwyr. Bu'n aelod Seneddol dros Wrecsam 1918-22, ennillodd sedd Sir Fon mewn is-Etholiad yn 1923. Fe'i dilyniwyd fel AS gan Megan Lloyd George yn 1929. Codwyd y Cartref Ymadfer ar ei stad yn Garreglwyd, mewn plasty heb ei orffen a chyda cynlluniau newydd gan Mr. Jos Owen, FRIBA, pensaer o Borthaethwy a Chaergybi. Bu'r cartref

wedyn yn Ysbyty Mamolaeth y Gors (man geni Dawn French) sydd heddiw wedi ei newid yn fflatiau.

Roedd Mrs. Lloyd George yn cymeryd lle ei gwr yn yr achlysur gan ei fod yn dal ym Mharys yn cwblhau Cyfamod Heddwch Versailles. Y diwrnod cynt fe agorodd hi yr Ystafell Ddarllen a'r Lolfa (gyda 200 o lyfrau) yng Nghlwb Diwygiad y Rhyddfrydwyr yng Nghaergybi, oedd hefyd wedi ei ddodrefnu drwy haelioni Syr Robert. Mae ei nodiadau yn awgrymu ei bod wedi defnyddio'r achlysur yng Ngharreglwyd i gefnogi ymdrechion ei gwr i gyrraedd heddwch er fod y broses ei hun yn ddadleuol.

"Mae'n wir ddrwg gennyf nad yw Mr. Lloyd George yma ei hun i dderbyn yr anrhegion yma oddi wrth milwyr a morwyr wedi ymdeolldadfyddino, a chyingor Tref Caergybi. Mae'n clywed cwynion weithiau ei bod hi'n cymeryd amser hir i sefydlu heddwch. Mentraf awgrymu fod gan y rhai sy'n cwyno ddim syniad o'r anhawsterau sy'n wynebu y Gynhadledd Heddwch, mae'r problemau sy'n eu gwynebu yn niferus a phwysig iawn. Mae rhaid iddynt gysoni diddordebau gelyniaethus a syniadau anghyson. Ni fu gan unrhyw gorff o bobl ar y ddaear waith mor galed a mor ddifrifol i'w gwblhau. Mae'n well o lawer cymeryd amser i'w wneud yn iawn na brysio a'i wneud yn wael. Ni chodwyd Rhufain mewn diwrnod ac ni fedrwyd ddiogelu Llundain ar chwarae bach. Ni fedraf feddwl am fwy o sarhad ar y rhai a gollwyd, na fwy o dro gwael i'r genhedlaeth bresennol na'r cenedlaethau i ddod na sefydlu heddwch sydd ddim i barhau. Gallaf eich sicrhau y bydd aelodau'r gynhadledd heddwch yn falch iawn pan fydd eu gwaith hir a difrifol(?) drosodd. Rhaid i ni beidio a andwyo aberth y Rhyfel wrth beidio bod yn amyneddgar".

Rhoddyd dysgl rosod arian i Mrs. Lloyd George.

Cyhoeddodd y North Wales Chronicle and Advertiser ar Fehefin 20fed 1919 erthygl hir ynglyn ag agor y Cartref gan nodi ei fod wedi ei ddodrefnu yn foethus, ac yn cynnwys ystafell billiards.

Ar ol y seremoni 'roedd te i'w gael mewn cwt mawr yn y gerddi a chafwyd adloniant cerddorol gan y cor plant lleol dan arweiniad Mrs. Charles A. Hughes a Band Porthaethwy. Yn ddiweddarach teithiodd Mrs. Lloyd George lawr arfordir Cymru gan gynnal cyfarfodydd mawr yn Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a mynd i lawr i Gaerdydd i weld ysbyty newydd.

—Prysur, heriol, amser newid.

### Richard Rhys O'Brien

(i) Y Fonesig Margaret Lloyd George a Nancy Astor ar Noswyl yr Etholiad 14eg Tachwedd 1919 ar

[www.richardrhysobrien.com](http://www.richardrhysobrien.com)

(ii) Mae'r areithriau yn 2 o 33 araith gan Mrs. Lloyd George sydd yn awr ar gael ym Mhapurau Parch. J.T. Rhys (Margaret Lloyd George) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r areithriau yn ffurfio rhan o Gasgliad fy nhaid J.T. Rhys, Gweinidog Cynulleidfaol, ymgyrchydd Dirwestol ac ysgrifwr, tra roedd yn ysgrifennydd preifat Mrs. Lloyd George yn rhif 10 Downing Street.